



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

**2005 Rhif 1915 (Cy.158)**

**2005 No. 1915 (W.158)**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a  
Chyfarpar) (Cymru)  
(Diwygio) (Rhif 2)  
2005

The National Health Service  
(Charges for Drugs and  
Appliances) (Wales)  
(Amendment)(No. 2) Regulations  
2005

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001 ("y prif Reoliadau") sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am gyffuriau a chyfarpar sy'n cael eu cyflenwi o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

These Regulations amend the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) Regulations 2001 ("the principal Regulations") which provide for the making and recovery of charges for drugs and appliances supplied under the National Health Service Act 1977.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn gostwng y ffi am eitemau ar bresgripsiwn a gyflenwir i gleifion o £4.00 i £3.00. Gostyngir y ffi am hosanau elastig o £4.00 i £3.00 (o £8.00 i £6.00 y pâr) a'r ffi am deits o £8.00 i £6.00. Gostyngir y symiau a ragnodir i roi tystysgrifau rhagdal o £20.93 i £15.69 am dystysgrif pedwar mis ac o £57.46 i £43.09 am dystysgrif deuddeg mis.

Regulation 2 and the Schedule reduce the charge for items on prescription supplied to patients from £4.00 to £3.00. The charge for elastic stockings is reduced from £4.00 to £3.00 (from £8.00 to £6.00 per pair) and that for tights from £8.00 to £6.00. The sums prescribed for the grant of pre-payment certificates are reduced from £20.93 to £15.69 for a four month certificate and from £57.46 to £43.09 for a twelve month certificate.

Mae diwygiadau a wneir gan reoliadau 4 a 5 yn darparu ar gyfer cymhwyso ffioedd ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol a ragnodir gan y prif Reoliadau o ran "presgripsiynau Cymreig" yn unig, sef y presgripsiynau hynny a ddyroddir ac a weinyddir yng Nghymru. Cymhwysir ffioedd ar gyfer presgripsiynau a ddyroddir o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ("presgripsiynau cyfatebol") yn ôl y cyfraddau a ragnodir gan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 2000.

Amendments made by regulations 4 and 5 make provision for the application of the charges for the provision of pharmaceutical services that are prescribed by the principal Regulations only in relation to "Welsh prescriptions", that is to those prescriptions that are both issued and dispensed in Wales. Charges for prescriptions that are issued under equivalent arrangements having effect in England, Scotland and Northern Ireland ("equivalent prescriptions") will be applied at the rates prescribed by the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Regulations 2000.

Mae rheoliad 6 yn tynnu'r gofyniad bod yn rhaid i bersonau o dan 25 oed, a phersonau 60 oed neu drosodd, sy'n esempt rhag talu ffioedd o dan y prif Reoliadau yn rhinwedd eu hoedran, ac y nodir eu dyddiad geni ar ffurflenni presgripsiwn Cymreig, presgripsiynau amlroddadwy Cymreig, neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt, ddatgan eu bod yn esempt oherwydd eu hoedran pan gyflenwir hwy â chyffuriau neu gyfarpar gan fferyllwyr o dan reoliad 3 o'r prif Reoliadau neu gan feddygon o dan reoliad 4 o'r prif Reoliadau.

Mae rheoliad 7 yn mewnosod rheoliad newydd yn y prif Reoliadau sy'n darparu na fydd carcharorion mewn carcharau penodol yn atebol i dalu unrhyw ffioedd o dan y prif Reoliadau. Dim ond tra byddant yn y carchar mewn gwirionedd y bydd carcharorion yn cael cyffuriau a chyfarpar yn ddi-dâl ac felly ni fydd angen iddynt brofi eu hawl i esemptiad rhag talu'r ffioedd. Daw'r newid hwn o ganlyniad i drosglwyddo cyfrifoldeb dros ddarparu gofal iechyd o'r Swyddfa Gartref i Fyrddau Iechyd Lleol sy'n effeithiol o Ebrill 2006.

Regulation 6 removes the requirement that persons aged under 25 and persons aged 60 or over, who are exempt from paying charges under the principal Regulations by virtue of their age, and who have their date of birth set out on Welsh prescription forms, Welsh repeatable prescriptions, or their equivalents, must declare that they are exempt by reason of their age when supplied with drugs or appliances by chemists under regulation 3 of the principal Regulations or by doctors under regulation 4 of the principal Regulations.

Regulation 7 inserts a new regulation into the principal Regulations which provides that prisoners in certain prisons will not be liable to pay any charges under the principal Regulations. Prisoners will only obtain free drugs and appliances while actually in prison and therefore will not be required to prove entitlement to exemption from paying the charges. This change is as a result of the transfer of responsibility for prison health care provision from the Home Office to Local Health Boards with effect from April 2006.

**2005 Rhif 1915 (Cy.158)****2005 No. 1915 (W.158)****Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU****NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a  
Chyfarpar) (Cymru)  
(Diwygio) (Rhif 2)  
2005**

**The National Health Service  
(Charges for Drugs and  
Appliances) (Wales)  
(Amendment)(No. 2) Regulations  
2005**

*Wedi'u gwneud* 12 Gorffennaf 2005

*Made* 12 July 2005

*Yn dod i rym, ac eithrio*

*Coming into force, except*

*rheoliadau 2 a 7* 1 Awst 2005,

*for regulations 2 and 7* 1 August 2005

*Rheoliadau 2 a 7* 1 Ebrill 2006

*Regulations 2 and 7* 1 April 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 77, 83, 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi(1), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by sections 77, 83, 83A and 126(4) of and paragraph 1 of Schedule 12 to the National Health Service Act 1977(1) hereby makes the following Regulations:

(1) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i), i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(1) 1977 c.49; *see* section 128(1) as amended by the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19)("the 1990 Act"), section 26(2)(g) and (i), for the definitions of "prescribed" and "regulations".

Diwygiwyd adran 83 gan Ddeddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995"), adran 1 ac Atodlen 1, paragraff 39 a chan O.S. 2000/90, erthygl 3(1) ac Atodlen 1, paragraff 13(1) a (4).

Section 83 was amended by the Health Authorities Act 1995 (c.17) ("the 1995 Act"), section 1 and Schedule 1, paragraph 39 and by S.I.2000/90, article 3(1) and Schedule 1, paragraph 13(1) and (4).

Mewnosodwyd adran 83A gan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 (p.7) ("Deddf 1988"), adran 14(1); ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf 1990, adran 66(1) ac Atodlen 9, paragraff 18(5)(a) a (b); gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 25 ac Atodlen 2, paragraff 6; gan O.S.1998/2385, erthygl 2 a chan Ddeddf 1995, adran 2(1) ac Atodlen 1, paragraff 40.

Section 83A was inserted by the Social Security Act 1988 (c.7) ("the 1988 Act"), section 14(1); and was amended by the 1990 Act, section 66(1) and Schedule 9, paragraph 18(5)(a) and (b); by the Health and Medicines Act 1988 (c.49), section 25 and Schedule 2, paragraph 6; by S.I.1998/2385, article 2 and by the 1995 Act, section 2(1) and Schedule 1, paragraph 40.

Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a Deddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), Atodlen 4, paragraff 37(6).

Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2) and the Health Act 1999 (c.8) ("the 1999 Act"), Schedule 4, paragraph 37(6).

Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 12 gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adran 25(2) ac Atodlen 5, paragraff 1; gan Ddeddf 1988, adran 16 ac Atodlen 5; gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46), adran 41(10) ac Atodlen 2, paragraff 31 a chan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), adran 184 ac Atodlen 11, paragraffau 7 a 44.

Paragraph 1 of Schedule 12 was amended by the Health Services Act 1980 (c.53), section 25(2) and Schedule 5, paragraph 1; by 1988 Act, section 16 and Schedule 5; by the National Health Service (Primary Care) Act 1997 (c.46), section 41(10) and Schedule 2, paragraph 31 and by the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (c.43), section 184 and Schedule 11, paragraphs 7 and 44.

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 77, 83, 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(4), Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15), adran 68(1), Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), adran 40(1) a Deddf 2003, adran 197(1).

The functions of the Secretary of State under sections 77, 83, 83A and 126(4) of and paragraph 1 of Schedule 12 to the National Health Service Act 1977 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672), article 2 and Schedule 1, as amended by the 1999 Act, section 66(4), the Health and Social Care Act 2001 (c.15), section 68(1), the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (c.17), section 40(1) and the 2003 Act, section 197(1).

## Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 a deuant i rym ar 1 Awst 2005, ac eithrio rheoliadau 2 a 7 a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001(1).

## Diwygio symiau a bennir yn y prif Reoliadau

2. Am bob swm a bennir yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn, pan fydd y swm hwnnw'n ymddangos yn narpariaeth y prif Reoliadau, a honno'n ddarpariaeth a bennir mewn perthynas â'r swm hwnnw yng ngholofn (1) (ac y gwelir yng ngholofn (2) beth yw ei phwnc), rhodder yn lle'r swm hwnnw y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (4).

## Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

3. Yn rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli)-

(a) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder -

"ystyr "Rheoliadau Ffioedd 2000" ("*the Charges Regulations 2000*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) 2000(2);"

(b) yn y diffiniad cyntaf o "swp-ddyroddiad" ("*batch issue*") yn lle "rhagnodydd" ym mhob man y digwydd, rhodder "rhagnodydd amlroddadwy";

(c) hepgorer yr ail ddiffiniad o "swp-ddyroddiad" ("*batch issue*");

(ch) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder-

"ystyr "swp-ddyroddiad cyfatebol" ("*equivalent batch issue*") yw ffurflen a ddarperir o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a ddyroddir gan ragnodydd amlroddadwy ar yr un pryd â phresgripsiwn amlroddadwy cyfatebol i alluogi fferyllydd i gael taliad am ddarparu gwasanaethau amlweinyddu;"

(1) O.S. 2001/1358 (Cy.86). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2001/2359 (Cy.196), O.S. 2004/1018 a 2004/1605 (Cy.164) ac O.S. 2005/427 (Cy.44).

(2) O.S. 2000/620.

## Title, commencement, application and interpretation

1.-(1) The title of these Regulations is the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No.2) Regulations 2005 and they come into force on 1 August 2005, except for regulations 2 and 7 which come into force on 1 April 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) Regulations 2001(1).

## Amendment of amounts specified in the principal Regulations

2. For each amount specified in the column (3) of the Schedule to these Regulations, where it appears in the provision of the principal Regulations specified in relation to it in column (1) (the subject matter of which is indicated in column (2)), substitute the amount specified in relation to it in column (4).

## Amendment of regulation 2 of the principal Regulations

3. In regulation 2 of the principal Regulations (interpretation)-

(a) in the appropriate place in the alphabetical order insert-

" "the Charges Regulations 2000" ("*Rheoliadau Ffioedd 2000*") means the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) Regulations 2000(2);"

(b) in the first definition of "batch issue" ("*swp-ddyroddiad*") for "prescriber" in each place it occurs, substitute "repeatable prescriber";

(c) omit the second definition of "batch issue" ("*swp-ddyroddiad*");

(d) in the appropriate place in the alphabetical order insert-

" "equivalent batch issue" ("*swp-ddyroddiad cyfatebol*") means a form provided under equivalent arrangements having effect in England, Scotland and Northern Ireland which is issued by a repeatable prescriber at the same time as an equivalent repeatable prescription to enable a chemist to receive payment for the provision of repeat dispensing services;"

(1) S.I. 2001/1358 (W.86). Relevant amending instruments are S.I. 2001/2359 (W.196), S.I. 2004/1018 (W.115) and 2004/1605 (W.164) and S.I.2005/427 (W.44).

(2) S.I.2000/620.

(d) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder-

"ystyr "ffurflen bresgripsiwn gyfatebol" ("*equivalent prescription form*") yw ffurflen a ddarparwyd ac a ddyroddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon i alluogi person i gael gwasanaethau fferyllol neu wasanaethau fferyllol lleol ac nad yw'n cynnwys-

- (a) ffurflen bresgripsiwn Gymreig;
- (b) presgripsiwn amlroddadwy Cymreig; neu
- (c) presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol;"

(dd) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder-

"ystyr "presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol" ("*equivalent repeatable prescription*") yw presgripsiwn a geir mewn ffurflen ac a ddyroddwyd o dan drefniadau cyfatebol sy'n effeithiol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon i alluogi person i gael gwasanaethau amlweinyddu;"

- (e) hepgorer y diffiniad o "ffurflen bresgripsiwn" ("*prescription form*");
- (f) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder-

"mae "carchar" ("*prison*") yn cynnwys sefydliad troseddwyd ifanc ond nid canolfan hyfforddi ddiogel neu garchar y llynges, carchar milwrol neu garchar y llu awyr, ac at ddbenion y diffiniad hwn-

ystyr "canolfan hyfforddi ddiogel" ("*secure training centre*") yw man y mae troseddwyd sy'n destun gorchmynion cadw a hyfforddi o dan adran 100 o Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000(1) (tramgwyddwyd o dan 18 oed: gorchmynion cadw a hyfforddi) yn gallu cael eu cadw a'u hyfforddi a'u haddysgu a'u paratoi ar gyfer eu rhyddhau; ac

ystyr "sefydliad tramgwyddwyd ifanc" ("*young offender institution*") yw man i gadw tramgwyddwyd a ddedfrydwyd i gael eu cadw mewn sefydliad i droseddwyd ifanc neu ddalfa am oes;"

(ff) ar ôl y diffiniad o "carchar" mewnosoder-

"ystyr "carcharor" ("*prisoner*") yw person a gedwir mewn carchar, lle darperir gwasanaethau deintyddol, offthalmig, fferyllol neu nyrsio o dan y Ddeddf a thrwy, neu o dan drefniadau a wnaed gan Fwrdd Iechyd Lleol neu fel arall heblaw yn rhinwedd adran 7(2) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988(2) (estyniad pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ariannu'r Gwasanaeth Iechyd);"

(e) in the appropriate place in the alphabetical order, insert-

" "equivalent prescription form" ("*ffurflen bresgripsiwn gyfatebol*") means a form provided and issued under equivalent arrangements having effect in England, Scotland or Northern Ireland to enable a person to obtain pharmaceutical services or local pharmaceutical services and does not include-

- (a) a Welsh prescription form;
- (b) a Welsh repeatable prescription ; or
- (c) an equivalent repeatable prescription;"

(f) in the appropriate place in the alphabetical order, insert-

" "equivalent repeatable prescription" ("*presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol*") means a prescription contained in a form and issued in accordance with arrangements having effect in England, Scotland and Northern Ireland to enable a person to obtain repeat dispensing services;"

- (g) omit the definition of "prescription form" ("*ffurflen bresgripsiwn*");
- (h) in the appropriate place in the alphabetical order insert-

" "prison" ("*carchar*") includes a young offender institution but not a secure training centre or a naval, military or air force prison, and for the purposes of this definition-

"secure training centre" ("*canolfan hyfforddi diogel*") means a place in which offenders subject to detention and training orders under section 100 of the Powers of Criminal Courts (Sentencing) Act 2000(1) (offenders under 18: detention and training orders) may be detained and given training and education and prepared for their release; and

"young offender institution" ("*sefydliad tramgwyddwyd ifanc*") means a place for the detention of offenders sentenced to detention in a young offender institution or to custody for life;"

(i) after the definition of "prison" insert-

" "prisoner" ("*carcharor*") means a person who is detained in a prison in which medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical or nursing services are provided under the Act by, or under arrangements made by a Local Health Board otherwise than by virtue of section 7(2) of the Health and Medicines Act 1988(2) (extension of the powers of Secretary of State for financing the Health Service);"

(1) 2000 p.6.

(2) 1988 p.49.

(1) 2000 c.6.

(2) 1988 c.49.

- (g) hepgorer y diffiniad o "presgripsiwn amlroddadwy" ("*repeatable prescription*");
- (ng) yn y diffiniad o "rhagnodydd atodol" ("*supplementary prescriber*"), ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder-

"neu

(ch) y rhan o'r gofrestr a gynhelir gan Gyngor Proffesiynau Iechyd yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd 2001(1) sy'n ymwneud â'r canlynol-

- (i) ciropodyddion a phodiatriyddion,
- (ii) ffysiotherapyddion, neu
- (iii) radiograffyddion: diagnostig neu therapiwtig,";

- (h) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder-

"ystyr "ffurflen bresgripsiwn Gymreig" ("*Welsh prescription form*") yw ffurflen a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol neu un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru a ddyroddwyd gan ragnodydd neu ddeintydd i alluogi person i gael gwasanaethau fferyllol ac nid yw'n cynnwys-

- (a) presgripsiwn amlroddadwy Cymreig;
- (b) ffurflen bresgripsiwn gyfatebol; neu
- (c) presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol,

ac at ddibenion y diffiniad hwn-

ystyr "un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ("*Welsh NHS Trust*") yw Ymddiriedolaeth y GIG y lleolir y cyfan neu'r rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau yng Nghymru;

- (i) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder-

"ystyr "presgripsiwn amlroddadwy Cymreig" ("*Welsh repeatable prescription*") yw presgripsiwn ar ffurflen a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Lleol ac a ddyroddwyd gan ragnodydd amlroddadwy i alluogi person i gael gwasanaethau fferyllol yn y fformat a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Contract y GMS-

- (a) a gynhyrchir gan gyfrifiadur ond a lofnodir gan ragnodydd amlroddadwy; a
- (b) sy'n dangos y ceir darparu'r cyffuriau neu'r cyfarpar a orchmynnir ar y ffurflen fwy nag unwaith, ac sy'n pennu sawl gwaith y ceir eu darparu";

- (j) omit the definition of "repeatable prescription" ("*presgripsiwn amlroddadwy*");

- (k) in the definition of "supplementary prescriber" ("*rhagnodydd atodol*"), after sub-paragraph (c) insert-

"or

(d) the part of the register maintained by the Health Professions Council in pursuance of article 5 of the Health Professions Order 2001(1) relating to-

- (i) chiropodists and podiatrists,
- (ii) physiotherapists, or
- (iii) radiographers: diagnostic or therapeutic,";

- (l) in the appropriate place in the alphabetical order insert-

" "Welsh prescription form" ("*ffurflen brescripsiwn Gymreig*") means a form provided by a Local Health Board or a Welsh NHS Trust and issued by a prescriber or a dentist to enable a person to obtain pharmaceutical services and does not include-

- (a) a Welsh repeatable prescription;
- (b) an equivalent prescription form; or
- (c) an equivalent repeatable prescription,

and for the purposes of this definition-

"Welsh NHS Trust" ("*un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru*") means an NHS Trust all or most of whose hospitals, establishments and facilities are situated in Wales;";

- (m) in the appropriate place in the alphabetical order, insert-

" "Welsh repeatable prescription" ("*presgripsiwn amolroddadwy Cymreig*") means a prescription contained in a form provided by a Local Health Board and issued by a repeatable prescriber to enable a person to obtain pharmaceutical services, which is in the format specified in Part 1 of Schedule 1 to the GMS Contract Regulations and which-

- (a) is generated by a computer but signed by a repeatable prescriber; and
- (b) indicates that the drugs or appliances ordered on that form may be provided more than once, and specifies the number of occasions on which they may be provided;";

## Amnewid rheoliad 3 o'r prif Reoliadau

4. Yn lle rheoliad 3 o'r prif Reoliadau rhodder y rheoliad a ganlyn-

### "Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan fferyllwyr

3.-(1) Rhaid i fferylllydd sy'n darparu gwasanaethau fferyllol i glaf, yn ddarostyngedig i baragraff (6), godi ac adennill taliad gan y claf-

- (a) os yw'r claf yn cyflwyno ffurflen bresgripsiwn Gymreig-
  - (i) am eitem hosan elastig ffi o £4.00, hynny yw ffi o £8.00 y pâr,
  - (ii) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, ffi o £4.00;
- (b) os yw'r claf yn cyflwyno ffurflen bresgripsiwn gyfatebol-
  - (i) am eitem hosan elastig y ffi a bennir yn rheoliad 3(1)(a) o Reoliadau Ffioedd 2000,
  - (ii) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, y ffi a bennir yn rheoliad 3(1)(b) o Reoliadau Ffioedd 2000.

(2) Os telir ffi o dan baragraff (1), rhaid i'r person sy'n talu, bryd hynny lofnodi datganiad yn ysgrifenedig ar y ffurflen bresgripsiwn Gymreig neu ar y ffurflen bresgripsiwn gyfatebol bod y ffi berthnasol wedi cael ei thalu.

(3) Rhaid i fferylllydd sy'n darparu gwasanaethau amlweinyddu i glaf, yn ddarostyngedig i baragraff (6), godi ac adennill taliad gan y claf hwnnw-

- (a) o ran pob swp-ddyroddiad-
  - (i) am eitem hosan elastig ffi o £4.00, hynny yw ffi o £8.00 y pâr,
  - (ii) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, ffi o £4.00;
- (b) o ran pob swp-ddyroddiad cyfatebol-
  - (i) am eitem hosan elastig y ffi a bennir yn rheoliad 3(1A)(b)(i) o Reoliadau Ffioedd 2000,
  - (ii) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, y ffi a bennir yn rheoliad 3(1A)(b)(ii) o Reoliadau Ffioedd 2000.

## Substitution of regulation 3 of the principal Regulations

4. For regulation 3 of the principal Regulations substitute the following regulation-

### "Supply of drugs and appliances by chemists

3.-(1) A chemist who provides pharmaceutical services to a patient, must, subject to paragraph (6), make and recover from that patient-

- (a) where the patient presents a Welsh prescription form-
  - (i) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £4.00, that is to say a charge of £8.00, per pair,
  - (ii) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, a charge of £4.00;
- (b) where the patient presents an equivalent prescription form-
  - (i) in respect of an item of elastic hosiery the charge that is specified in regulation 3(1)(a) of the Charges Regulations 2000,
  - (ii) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, the charge that is specified in regulation 3(1)(b) of the Charges Regulations 2000.

(2) Where a charge is paid under paragraph (1), the person making the payment must on doing so sign a declaration in writing on the Welsh prescription form or on the equivalent prescription form that the relevant charge has been paid.

(3) A chemist who provides repeat dispensing services to a patient must, subject to paragraph (6), make and recover from that patient-

- (a) in respect of each batch issue-
  - (i) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £4.00, that is to say a charge of £8.00 per pair,
  - (ii) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, a charge of £4.00;
- (b) in respect of each equivalent batch issue-
  - (i) in respect of an item of elastic hosiery, the charge specified in regulation 3(1A)(b)(i) of the Charges Regulations 2000,
  - (ii) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, the charge that is specified in regulation 3(1A)(b)(ii) of the Charges Regulations 2000.

(4) Os telir ffi o dan baragraff (3), rhaid i'r person sy'n talu, bryd hynny lofnodi datganiad yn ysgrifenedig ar y swp-ddyroddiad neu'r swp-ddyroddiad cyfatebol bod y ffi berthnasol wedi cael ei thalu.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn-

- (a) os cyflenwir cyffur a orchmynnir ar ffurflen bresgripsiwn Gymreig sengl fesul cyfrannau, rhaid i'r ffi o £4.00 sy'n daladwy am y cyffur hwnnw gael ei thalu pan gyflenwir y gyfran gyntaf;
- (b) os cyflenwir cyffur a orchmynnir ar ffurflen bresgripsiwn gyfatebol sengl fesul cyfrannau, rhaid i'r ffi a bennir yn rheoliad 3(4) o Reoliadau Ffioedd 2000 gael ei thalu pan gyflenwir y gyfran gyntaf.

(6) Ni chaniateir codi nac adennill ffioedd o dan baragraffau (1), (3) neu (5) yn yr amgylchiadau canlynol-

- (a) pan fydd esemptiad o dan reoliad 8 a bod datganiad o hawl i esemptiad wedi'i gwblhau'n briodol gan neu ar ran y claf-
  - (i) mewn achosion pan gyflwynir ffurflen bresgripsiwn Gymreig, ar y ffurflen bresgripsiwn Gymreig,
  - (ii) mewn achosion pan gyflwynir ffurflen bresgripsiwn gyfatebol, ar y ffurflen bresgripsiwn gyfatebol,
  - (iii) mewn achosion sy'n dod o fewn paragraff (3), ar y swp-ddyroddiad o ran y presgripsiwn amlroddadwy Cymreig neu, ar y swp-ddyroddiad cyfatebol o ran y presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol, ar yr adeg y cyflenwir y cyffur neu'r cyfarpar;
- (b) pan fydd hawl i beidio â thalu'r ffi o dan reoliad 3 o Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl a datganiad o hawl i beidio â thalu wedi'i gwblhau'n briodol gan neu ar ran y claf-
  - (i) mewn achosion pan gyflwynir ffurflen bresgripsiwn Gymreig, ar y ffurflen bresgripsiwn Gymreig,
  - (ii) mewn achosion pan gyflwynir ffurflen bresgripsiwn gyfatebol, ar y ffurflen bresgripsiwn gyfatebol,
  - (iii) mewn achosion sy'n dod o fewn paragraff (3), ar y swp-ddyroddiad o ran y presgripsiwn amlroddadwy Cymreig neu, ar y swp-ddyroddiad cyfatebol o ran y presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol, ar yr adeg y cyflenwir y cyffur neu'r cyfarpar; neu

(4) Where a charge is paid under paragraph (3), the person making the payment must on doing so sign a declaration in writing on the batch issue or on the equivalent batch issue that the relevant charge has been paid.

(5) For the purposes of this regulation-

- (a) where a drug ordered on a single Welsh prescription form is supplied by instalments, the charge of £4.00 payable for that drug must be paid upon the supply of the first instalment;
- (b) where a drug ordered on a single equivalent prescription form is supplied by instalments, the charge specified in regulation 3(4) of the Charges Regulations 2000 must be paid upon the supply of the first instalment.

(6) No charges may be made and recovered under paragraphs (1), (3) or (5) where-

- (a) there is an exemption under regulation 8 and a declaration of entitlement to exemption is duly completed by or on behalf of the patient-
  - (i) in cases where a Welsh prescription form is presented, on the Welsh prescription form,
  - (ii) in cases where an equivalent prescription form is presented, on the equivalent prescription form,
  - (iii) in cases falling within paragraph (3), on the batch issue relating to the Welsh repeatable prescription or, on the equivalent batch issue relating to the equivalent repeatable prescription, at the time the drug or appliance is supplied;
- (b) there is entitlement to remission of the charge under regulation 3 of the Travelling Expenses and Remission of Charges Regulations and a declaration of entitlement to remission is duly completed by or on behalf of the patient-
  - (i) in cases where a Welsh prescription form is presented, on the Welsh prescription form,
  - (ii) in cases where an equivalent prescription form is presented, on the equivalent prescription form,
  - (iii) in cases falling within paragraph (3), on the batch issue relating to the Welsh repeatable prescription or, on the equivalent batch issue relating to the equivalent repeatable prescription, at the time that the drug or appliance is supplied; or



(c) pan fydd y claf yn preswyllo mewn ysgol neu sefydliad y mewnosodwyd ei henw neu ei enw ar y ffurflen bresgripsiwn Gymreig neu ar y ffurflen bresgripsiwn gyfatebol gan ragnodydd yn unol â theler contract gwasanaethau meddygol cyffredinol sy'n rhoi effaith i baragraff 44(2) o Atodlen 6 i Reoliadau Contractau GMS neu drefniadau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol a wnaed o dan adran 16CC(2) o'r Ddeddf.

(7) Ni fydd fferylllydd, beth bynnag fo telerau ei wasanaeth, o dan rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau fferyllol o ran gorchymyn ar-

- (a) ffurflen bresgripsiwn Gymreig,
- (b) ffurflen bresgripsiwn gyfatebol,
- (c) presgripsiwn amlroddadwy Cymreig, neu
- (ch) presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol,

oni thelir yn gyntaf iddo gan y claf unrhyw ffi y mae'n ofynnol ei chodi a'i hadennill gan baragraff (1), (3), neu (5) o ran y gorchymyn hwnnw.

(8) Rhaid i fferylllydd sy'n codi ac yn adennill ffi o dan baragraff (1), (3), neu (5), os bydd y claf yn gofyn am hynny, roi derbynneb i'r claf am y swm a dderbyniwyd ar y ffurflen a ddarparwyd at y diben a rhaid i'r ffurflen honno gynnwys ffurfiau o ddatganiad yn cefnogi cais am ad-daliad a gwybodaeth o ran i bwy y gellir gwneud cais am ad-daliad.

(9) Caiff unrhyw swm a fyddai fel arall yn daladwy gan Fwrdd Iechyd Lleol i fferylllydd o ran darparu gwasanaethau fferyllol gan y fferylllydd ei leihau gan swm unrhyw ffioedd y mae'n ofynnol eu codi a'u hadennill gan y darpariaethau blaenorol yn y rheoliad hwn."

(c) the patient is resident in a school or institution the name of which is inserted on the Welsh prescription form or on the equivalent prescription form by a prescriber pursuant to the term of a general medical services contract which gives effect to paragraph 44(2) of Schedule 6 to the GMS Contract Regulations or of other arrangements for the provision of primary medical services made under section 16CC(2) of the Act.

(7) A chemist, notwithstanding his or her terms of service, shall be under no obligation to provide pharmaceutical services in respect of an order on-

- (a) a Welsh prescription form,
- (b) an equivalent prescription form,
- (c) a Welsh repeatable prescription, or
- (d) an equivalent repeatable prescription,

unless he or she is first paid by the patient any charge required to be made and recovered by paragraph (1), (3), or (5) in respect of that order.

(8) A chemist who makes and recovers a charge under paragraph (1), (3), or (5) must, if so required by the patient, give to the patient a receipt for the amount received on the form provided for the purpose which form must contain forms of declaration in support of an application for repayment and information as to whom an application for repayment may be made.

(9) Any sum which would otherwise be payable by a Local Health Board to a chemist in respect of the provision by the chemist of pharmaceutical services will be reduced by the amount of any charges which are required to be made and recovered by the preceding provisions of this regulation."

#### **Diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau**

5.-(1) Diwygier rheoliad 4 o'r prif Reoliadau fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (1) rhodder y canlynol -

"(1) Rhaid i feddyg sy'n darparu gwasanaethau fferyllol i glaf, yn ddarostyngedig i baragraff (3), godi ac adennill taliad gan y claf hwnnw-

- (a) os yw'r claf yn cyflwyno ffurflen bresgripsiwn Gymreig-
  - (i) am eitem hosan elastig ffi o £4.00, hynny yw ffi o £8.00 y pâr,
  - (ii) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, ffi o £4.00;

#### **Amendment to regulation 4 of the principal Regulations**

5.-(1) Regulation 4 of the principal Regulations is amended as follows.

(2) For paragraph (1) substitute the following-

"(1) A doctor who provides pharmaceutical services to a patient must, subject to paragraph (3) make and recover from that patient-

- (a) where the patient presents a Welsh prescription form-
  - (i) in respect of an item of elastic hosiery a charge of £4.00, that is to say a charge of £8.00, per pair,
  - (ii) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, a charge of £4.00;

- (b) os yw'r claf yn cyflwyno ffurflen bresgripsiwn gyfatebol-
  - (i) am eitem hosan elastig y ffi a bennir yn rheoliad 4(1)(a) o Reoliadau Ffioedd 2000,
  - (ii) am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur, y ffi a bennir yn rheoliad 4(1)(b) o Reoliadau Ffioedd 2000."

(3) Ym mharagraff (2) yn lle'r geiriau "ffurflen bresgripsiwn" rhodder "ffurflen bresgripsiwn Gymreig neu ar y ffurflen bresgripsiwn gyfatebol".

(4) Ym mharagraff (3) yn lle'r geiriau "ffurflen bresgripsiwn" ym mhob man y digwydd, rhodder y geiriau "ffurflen bresgripsiwn Gymreig neu ar y ffurflen bresgripsiwn gyfatebol".

- (5) Ym mharagraff (4)-
  - (a) yn lle'r geiriau "ffurflen bresgripsiwn sengl" rhodder "ffurflen bresgripsiwn Gymreig sengl neu ffurflen bresgripsiwn gyfatebol sengl"; a
  - (b) yn lle "£6.00" rhodder "£4.00".

#### **Diwygio rheoliad 8 o'r Prif Reoliadau**

6.-(1) Diwygier rheoliad 8 o'r prif Reoliadau fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3), ar ddechrau'r paragraff, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (3A)".

- (3) Ar ôl paragraff (3) mewnosoder-
  - " (3A) Ni fydd yn ofynnol i berson sy'n dod o fewn paragraff (1)(a) neu (b) ddarparu unrhyw ddatganiad o hawl sy'n ofynnol gan reoliadau 3(6) neu 4(3) os dyroddwyd-
    - (a) ffurflen bresgripsiwn Gymreig;
    - (b) presgripsiwn amlroddadwy Cymreig;
    - (c) ffurflen bresgripsiwn gyfatebol; neu
    - (ch)presgripsiwn amlroddadwy cyfatebol,
 a bod dyddiad geni'r person wedi'i argraffu drwy gyfrwng cyfrifiadur ar y ffurflen berthnasol .".

#### **Mewnosod rheoliad 8A yn y prif Reoliadau**

7. Ar ôl rheoliad 8, mewnosoder y rheoliad canlynol-

##### **"Esemptiad rhag ffioedd ar gyfer carcharorion**

**8A.** Nid yw carcharor yn atebol i dalu unrhyw ffioedd o dan y Rheoliadau hyn."

- (b) where the patient presents an equivalent prescription form-
  - (i) in respect of an item of elastic hosiery the charge that is specified in regulation 4(1)(a) of the Charges Regulations 2000,
  - (ii) in respect of the supply of each other appliance and of each quantity of a drug, the charge that is specified in regulation 4(1)(b) of the Charges Regulations 2000."

(3) In paragraph (2) for the words "prescription form" substitute "Welsh prescription form or on the equivalent prescription form".

(4) In paragraph (3) for the words "prescription form" in each place they occur, substitute the words "Welsh prescription form or the equivalent prescription form".

- (5) In paragraph (4)-
  - (a) for the words "single prescription form" substitute "single Welsh prescription form or a single equivalent prescription form"; and
  - (b) for "£6.00" substitute "£4.00"

#### **Amendment of regulation 8 of the principal Regulations**

6.-(1) Regulation 8 of the principal Regulations is amended as follows.

(2) In paragraph (3), at the beginning of the paragraph, insert "Subject to paragraph (3A)".

- (3) After paragraph (3) insert-
  - " (3A) A person who falls within paragraph (1)(a) or (b) will not be required to provide any declaration of entitlement required by regulations 3(6) or 4(3) where-
    - (a) a Welsh prescription form;
    - (b) a Welsh repeatable prescription;
    - (c) an equivalent prescription form; or
    - (d) an equivalent repeatable prescription,
 is issued and the person's date of birth is printed by means of a computer on the relevant form."

#### **Insertion of regulation 8A into the principal Regulations**

7. After regulation 8, insert the following regulation-

##### **"Exemption from charges for prisoners**

**8A.** A prisoner is not liable to pay any charges under these Regulations."

**Diwygio rheoliad 11 o'r prif Reoliadau**

8. Ym mharagraff (2) o reoliad 11 o'r prif Reoliadau, yn lle'r geiriau "rheoliad 3(6)" rhodder "rheoliad 3(8)".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

12 Gorffennaf 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Amendment of regulation 11 of the principal Regulations**

8. In paragraph (2) of regulation 11 of the principal Regulations, for the words "regulation 3(6)" substitute "regulation 3(8)".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

12 July 2005

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

## YR ATODLEN

## SCHEDULE

rheoliad 2

regulation 2

## Symiau a amnewidir yn y prif Reoliadau

## Amounts substituted in the principal Regulations

(1) Y ddarpariaeth yn y prif Reoliadau	(2) Y pwnc	(3) Swm blaenorol	(4) Swm newydd	(1) Provision in the principal Regulations	(2) Subject matter	(3) Old amount	(4) New amount
Rheoliad 3	Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan fferyllwyr-			Regulation 3	Supply of drugs and appliances by chemists-		
paragraff (1)(a)(i)	ffi am hosanau elastig- fesul eitem y pâr	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00	paragraff (1)(a)(i)	charge for elastic hosiery- per item per pair	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00
paragraff (1)(a)(ii)	ffi am gyffuriau, ac am gyfarpar na phennir ym mharagraff (1)(a)(i)	£4.00	£3.00	paragraff (1)(a)(ii)	charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (1)(a)(i)	£4.00	£3.00
paragraff (3)(a)(i)	ffi am hosanau elastig- fesul eitem y pâr	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00	paragraff (3)(a)(i)	charge for elastic hosiery- per item per pair	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00
paragraff (3)(a)(ii)	ffi am gyffuriau, ac am gyfarpar na phennir ym mharagraff (3)(a)(i)	£4.00	£3.00	paragraff (3)(a)(ii)	charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (3)(a)(i)	£4.00	£3.00
paragraff (5)(a)	ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn	£4.00	£3.00	paragraff (5)(a)	charge for drugs supplied by instalments	£4.00	£3.00
Rheoliad 4	Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan feddygon -			Regulation 4	Supply of drugs and appliances by doctors-		
paragraff (1)(a)(i)	ffi am hosanau elastig- fesul eitem y pâr	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00	paragraff (1)(a)(i)	charge for elastic hosiery- per item per pair	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00

paragraff (1)(a)(ii)	ffi am gyffuriau, ac am gyfarpar na phennir ym mharagraff (1)(a)(i)	£4.00	£3.00	paragraph (1)(a)(ii)	charge for drugs, and for appliances not specified in paragraph (1)(a)(i)	£4.00	£3.00
paragraff (4)	ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn	£4.00	£3.00	paragraph (4)	charge for drugs supplied by instalments	£4.00	£3.00
Rheoliad 5	Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar i gleifion allanol gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG -			Regulation 5	Supply of drugs and appliances to out-patients by Local Health Boards and NHS Trusts-		
paragraff (1)(a)	ffi am hosanau elastig-fesul eitem y pâr	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00	paragraph (1)(a)	charge for elastic hosiery-per item per pair	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00
paragraff (1)(c)	ffi am deits	£8.00	£6.00	paragraph (1)(c)	charge for tights	£8.00	£6.00
paragraff (1)(ch)	ffi am gyffuriau a chyfarpar na phennir ym mharagraff (1)(a) neu (1)(c), neu yn Atodlen 1	£4.00	£3.00	paragraph (1)(d)	charge for drugs, and appliances not specified in paragraph (1)(a) or (1)(c), or in Schedule 1	£4.00	£3.00
paragraff (5)	ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn	£4.00	£3.00	paragraph (5)	charge for drugs supplied by instalments	£4.00	£3.00
Rheoliad 6	Cyflenwi cyffuriau a chyfarpar mewn Canolfannau cerdded-i-mewn			Regulation 6	Supply of drugs and appliances at Walk-in centres-		
paragraff (1)(a)	ffi am hosanau elastig-fesul eitem y pâr	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00	paragraph (1)(a)	charge for elastic hosiery-per item per pair	£4.00 £8.00	£3.00 £6.00
paragraff (1)(b)	ffi am gyffuriau a chyfarpar na phennir ym mharagraff (1)(a)	£4.00	£3.00	paragraph (1)(b)	charge for drugs, and appliances not specified in paragraph (1)(a)	£4.00	£3.00

paragraff (4)	ffi am gyffuriau a gyflenwir fesul tipyn	£4.00	£3.00	paragraph (4)	charge for drugs supplied by instalments	£4.00	£3.00
Rheoliad 7(1)	Cyflenwi cyffuriau o dan Gyfarwyddiadau Grwp Cleifion	£4.00	£3.00	Regulation 7(1)	Supply of drugs under Patient Group Directions	£4.00	£3.00
Rheoliad 10(5)	Tystysgrif ragdalu - 4 mis 12 mis	£20.93 £57.46	£15.69 £43.09	Regulation 10(5)	Pre-payment Certificate- 4 months 12 months	£20.93 £57.46	£15.69 £43.09



---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**2005 Rhif 1915 (Cy.158)**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a  
Chyfarpar) (Cymru)  
(Diwygio) (Rhif 2)  
2005

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

**2005 No. 1915 (W.158)**

The National Health Service  
(Charges for Drugs and  
Appliances) (Wales)  
(Amendment)(No. 2) Regulations  
2005

©© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**


W123/7/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091176-8



9 780110 911762